# Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009

**2009 mccc 2**

## RHAN 1

GWELLA LLYWODRAETH LEOL

*Swyddogaethau eraill Archwilydd Cyffredinol Cymru*

### [F1 27A Pŵer Gweinidogion Cymru i ragnodi graddfa ffioedd

(1) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, ragnodi graddfa neu raddfeydd ffioedd i gael effaith yn lle graddfa neu raddfeydd a ragnodir gan Swyddfa Archwilio Cymru o dan adran 27(1),

(2) Mae graddfa ffioedd a ragnodir o dan is-adran (1) yn caeleffaith am y cyfnod a bennir mewn perthynas â hi yn y rheoliadau.

(3) Mae is-adran (4) yn gymwys—

- (a) os oes graddfa ffioedd yn cael ei rhagnodi o dan is-adran (1) yn lle graddfa a ragnodwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru, a
- (b) os mai'r raddfa a ragnodwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru fyddai'r raddfa briodol, fel arall, at ddibenion adran 27(3) a (4).

(4) Mae'r cyfeiriadau at y raddfa briodol yn adran 27(3) a (4) i'w darllen fel cyfeiriadau at y raddfa a ragnodwyd o dan is-adran (1).

(5) Cyn gwneud rheoliadau o dan is-adran (1) rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r canlynol—

- (a) Swyddfa Archwilio Cymru,
- (b) unrhyw gymdeithasau cyrff llywodraeth leol yng Nghymru yr ymddengys i Weinidogion Cymru eu bod a wnelont â'r peth, ac
- (c) y personau eraill hynny y maent yn gweld yn dda i ymgynghori â hwy.

(6) Mae rheoliadau a wneir o dan yr adran hon yn ddarostyngedig i'w diddymu yn unol â phenderfyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru.**]**

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, Adran 27A yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 29 Gorffennaf 2023. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

### Diwygiadau Testunol

**F1** A. 27A wedi ei fewnosod (1.4.2014) gan Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 (anaw 3), a. 35(2), **Atod. 4 para. 88** (ynghyd ag Atod. 3 para. 3); O.S. 2013/1466, ergl. 3(1)

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, Adran 27A yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 29 Gorffennaf 2023. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to the whole Measure associated Parts and Chapters:**

– Measure repealed by 2021 asc 1 s. 170(1)

Whole provisions yet to be inserted into this Measure (including any effects on those provisions):

– Sch. para. 10 omitted by 2018 anaw 2 Sch. 1 para. 16